# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 20-08)

**Dyddiad: 29 Medi 2008**
**Amser:2.30pm**
**Lleoliad:Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 29 Medi 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Alun Davies AC, Joyce Watson AC ac Eleanor Burnham AC (cyswllt fideo). Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood AC.

### Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

### SLC189 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Awst 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Awst 2008. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1.

Ceir Adroddiad y pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offeryn statudol hwn sy'n agored i gael ei ddirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn**.**

### Eitemau eraill o fusnes

Cynhaliodd y pwyllgor ei sesiwn tystiolaeth lafar gyntaf ar yr ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig, gan edrych ar sut y mae'r broses yn gweithio ar hyn o bryd a phenderfynu beth yw'r ffordd orau o ymdrin â'i gylch gwaith sydd wedi'i ehangu. Yn ystod y sesiwn gyntaf hon, clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Keith Bush, Prif Gynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, David Lambert a Marie Navarro, sy'n cynrychioli Ysgol y Gyfraith, Caerdydd.

Trafododd y pwyllgor hefyd ganlyniadau'r adolygiad o'i adroddiadau ar offerynnau statudol o dan Reolau Sefydlog 15.2 – 15.6 o ran yr offerynnau statudol a gyflwynwyd gerbron y pwyllgor ers dechrau'r Trydydd Cynulliad (Mai 2007 – Gorffennaf 2008). Efallai y bydd y rhesymau dros y gwallau a nodwyd o dan Reolau Sefydlog 15.2 – 15.6 yn helpu i nodi unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg ac yn helpu'r pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd ei waith craffu. Ychwanegwyd hefyd ymateb y Cwnsler Cyffredinol i gais y Cadeirydd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y camau y bwriedid eu cymryd, a amlinellwyd yn ymatebion Lywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiadau'r pwyllgor, lle nad oedd y camau hynny wedi'u cymryd.

Yn olaf, trafododd y pwyllgor ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) (fel y'i gosodwyd) o dan Reol Sefydlog 15.6(ii). Penderfynwyd y byddai'r pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y Mesur, a hynny ar sail adroddiad y cynghorwyr cyfreithiol a chan ystyried y sesiwn tystiolaeth lafar gan John Griffiths AC, y Gweinidog dros Sgiliau, yng nghyfarfod y pwyllgor ar 8 Ebrill 2008.

**Dr Dai Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**29 Medi 2008**

## Atodiad 1

### Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-19-08)**

### SLC189

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw penodol i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau") yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig mewn perthynas â

blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008. Mae'r Rheoliadau presennol yn gwneud diwygiadau helaeth i'r prif Reoliadau, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr rhan-amser. Maent hefyd yn cywiro gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r prif Reoliadau.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu Atodlen 6 newydd i'r prif Reoliadau. Yn y testun Cymraeg a Saesneg, mae Paragraff 7(b) o'r Atodlen honno'n cynnwys croesgyfeiriad at baragraff 7, ond dylai gyfeirio at baragraff 6. Mae'r cyd-destun yn egluro'r bwriad, ond dylid cywiro hyn y tro nesaf y caiff y prif Reoliadau eu diwygio neu eu cydgyfnerthu. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)].

**Dr Dai Lloyd AC**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**29 Medi 2008**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn y pwyntiau adrodd a nodir yn yr adroddiad ac mae'n bwriadu cywiro'r gwall pan ddaw'r cyfle cyntaf i wneud hynny, ac mae hynny'n debygol o fewn y 6 mis nesaf.